Welsh Language Policy

Watkin Jones is historically a Welsh company that is recognised nationally as a quality construction company. The company's roots are deep within North Wales and the company is proud of it's Welsh heritage.

Watkin Jones is committed to operating in Wales in a manner that respects the language preferences of customers and staff. This policy sets out the company's main objectives in relation to language equality in our operations in Wales.

Principle of Equality

Watkin Jones has adopted the principle that throughout Wales it will treat the Welsh and English languages equally.

The Public Face of Watkin Jones

Watkin Jones recognises the importance of adopting a bilingual identity for the company in Wales and is committed to increasing its use of Welsh in the following areas:

1. **Corporate Identity**

All printed information on letter headed paper, compliment slips, business cards for staff and all other corporate writing materials will be designed bilingually when requested.

2. **Signage**

All site signage in Wales will be bilingual with equal prominence being given to both languages.

3. **Marketing Materials**

Marketing materials for distribution in Wales will be available through the medium of Welsh and English.

4. **Website**

Our current Group website is in English and Welsh.

5. **Advertising – Recruitment**

All recruitment advertisements where the ability to speak Welsh is an essential skill will be fully bilingual or in Welsh only.

Respecting Language Choice

Watkin Jones is committed to respecting customers' language choice - our customers' needs are our first priority and we will respect these preferences at all times. Our aim is to deliver our services bilingually, including:

1. Bilingual telephone greetings by reception staff and referring Welsh speaking callers to members of staff who can deal with the enquiry in Welsh.

2. Welcoming and responding to correspondence sent in Welsh. We will respond in Welsh to the same standards as we respond in English.
3. Over the counter services will be available in Welsh wherever possible.
4. Working Welsh - We will encourage our Welsh speaking Sales Advisors to wear Working Welsh badges.

Retail Developments Services

When developing and managing retail sites in Wales, Watkin Jones will encourage business tenants to use the Welsh language. In relevant developments, we will include a clause in occupational leases asking tenants to erect any signage of a pubic nature in bilingual form.

Delivery

Watkin Jones recognises that the ability to speak Welsh aids effective communication with customers in Wales. Our recruitment and training practices in Wales will reflect this and where needed Welsh Language training will be offered to our staff.

All staff can communicate in their preferred language in the workplace and with customers.

All Welsh speaking staff who may wish to improve their current skills, e.g. Writing Skills, will be given the opportunity to attend such courses and will be given relevant support software.

Policy Implementation

All staff will receive a copy of this policy and will receive guidance on its implementation.

The company will monitor and review the policy annually.

Revised 2018

Polisi Iaith Gymraeg

Cwmni Cymreig yw Watkin Jones, mae'n cael ei adnabod yn genedlaethol fel cwmni adeiladu o safon. Mae gwreiddiau'r cwmni'n ddwfn yng Ngogledd Cymru ac mae'n falch o'i dreftadaeth Gymreig.

Mae Watkin Jones yn ymrwymedig i weithio yng Nghymru mewn modd sy'n parchu dewisiadau ieithyddol y staff a'r cwsmeriaid. Yn y polisi hwn, rydym yn nodi prif amcanion y cwmni o ran cydraddoldeb ieithyddol yn ein gweithredoedd yng Nghymru.

Yr Egwyddor o Gydraddoldeb

Mae Watkin Jones wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ar draws Cymru.

Wyneb Cyhoeddus Watkin Jones

Mae Watkin Jones yn cydnabod pwysigrwydd mabwysiadu hunaniaeth ddwyieithog ar gyfer y cwmni yng Nghymru ac rydym wedi ymrwymo i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y meysydd a ganlyn:

1. **Hunaniaeth Gorfforaethol**

Bydd yr holl wybodaeth sy'n ymddangos ar bapur pennawd, slipiau cyfarch, cardiau busnes a'r holl ddeunydd corfforaethol tebyg yn cael eu cynllunio yn ddwyieithog pan wneir cais am hynny.

2. **Arwyddion**

Bydd yr holl arwyddion safle yng Nghymru yn ddwyieithog a rhoddir amlygrwydd cyfartal i'r ddwy iaith.

3. **Deunyddiau Marchnata**

Bydd deunyddiau marchnata i'w dosbarthu yng Nghymru ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

4. **Gwefan**

Mae ein gwefan Grŵp gyfredol yn ddwyieithog.

5. **Hysbysebu – Recriwtio**

Bydd yr holl hysbysebion recriwtio am swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn sgìl hanfodol yn gwbl ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unig.

Parchu Dewis Iaith

Mae Watkin Jones yn ymrwymedig i barchu dewis iaith ei gwsmeriaid. Anghenion ein cwsmeriaid yw ein prif flaenoriaeth a byddwn yn parchu'r dewisiadau hyn bob amser. Ein nod yw cyflenwi ein gwasanaethau'n ddwyieithog, gan gynnwys:

1. Staff derbynfa yn cyfarch galwyr yn ddwyieithog ac yn trosglwyddo galwyr sy'n siarad Cymraeg i aelodau o staff sy'n gallu delio â'r ymholiad yn Gymraeg.
2. Croesawu ac ymateb i ohebiaeth Cymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i'r un safon ag ydym yn ymateb yn Saesneg.
3. Bydd gwasanaethau dros y cownter ar gael yn Gymraeg, lle bynnag y bo modd.
4. Iaith Gwaith - Byddwn yn annog ein Hymgynghorwyr Gwerthu sy'n medru'r Gymraeg i wisgo bathodynnau Iaith Gwaith.

Gwasanaethau Safleoedd Manwerthu

Wrth ddatblygu a rheoli safleoedd manwerthu yng Nghymru, bydd Watkin Jones yn annog tenantiaid busnes i ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Bydd datblygiadau perthnasol yn cynnwys cymal mewn prydlesi meddiannaeth yn gofyn i denantiaid osod arwyddion dwyieithog ar gyfer sylw'r cyhoedd.

Cyflenwi

Mae Watkin Jones yn cydnabod fod y gallu i siarad Cymraeg yn gymorth i gyfathrebu'n effeithiol â chwsmeriaid yng Nghymru. Bydd ein harferion recriwtio a hyfforddi yng Nghymru yn adlewyrchu hyn, a bydd hyfforddiant Iaith Gymraeg yn cael ei gynnig i'n staff lle bo angen.

Gall yr holl staff gyfathrebu gan ddefnyddio eu hiaith ddewisol yn y gweithle a gyda chwsmeriaid.

Bydd yr holl staff sy'n medru'r Gymraeg ac sy'n dymuno gloywi eu sgiliau e.e. sgiliau ysgrifennu yn cael cyfle i fynd ar gyrsiau ac yn cael meddalwedd cymorth perthnasol.

Gweithredu'r Polisi

Bydd yr holl staff yn cael copi o'r polisi hwn ac yn cael arweiniad ar sut i weithredu'r polisi.

Caiff y polisi ei fonitro a'i adolygu gan y cwmni yn flynyddol.

Revised 2018